# Ymchwiliad i gŵyn

# yn erbyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad gan yr
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 202301069

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Y gŵyn | 3 |
| Ymchwiliad | 3 |
| Y digwyddiadau cefndir | 3 |
| Tystiolaeth Mrs X | 4 |
| Tystiolaeth y Bwrdd Iechyd | 4 |
| Dadansoddiad a Chasgliadau | 5 |
| Argymhellion | 6 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 23 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor.  Mae'r adroddiad felly yn cyfeirio at yr achwynydd fel Mrs X.

## Crynodeb

Cwynodd Mrs X fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ("y Bwrdd Iechyd") wedi methu â chynnig triniaeth iddi gyda'r cyffur fampridine ar ôl iddo gael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio gan y GIG yng Nghymru ym mis Rhagfyr. Gall fampridine helpu rhai cleifion sydd â sglerosis ymledol.

**Cadarnheais** y gŵyn.

Canfu fy ymchwiliad, er bod fampridine wedi'i gymeradwyo ar gyfer defnydd a ariennir gan y GIG yng Nghymru yn 2019, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith o hyd i gynnig fampridine i unrhyw gleifion cymwys yn ei ardal. Roedd hyn yn cynnwys Mrs X. Yn fy marn i, roedd hyn yn gyfystyr â chamweinyddu a arweiniodd at anghyfiawnder parhaus i Mrs X. Mae'n parhau i fod yn aneglur ynghylch pryd fydd ganddi, neu a fydd ganddi fynediad at y feddyginiaeth hon a allai wella ei bywyd.

Argymhellais y dylai'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro i Mrs X, a rhoi cynllun gweithredu ar waith, gydag amserlenni a throsolwg bwrdd, i sicrhau bod y broses o gyflwyno fampridine yn cael ei rhoi ar waith mewn modd amserol.

## Y gŵyn

1. Cwynodd Mrs X fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ("y Bwrdd Iechyd") wedi methu â chynnig triniaeth iddi gyda'r cyffur fampridine ar ôl iddo gael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio gan y GIG yng Nghymru ym mis Rhagfyr.

## Ymchwiliad

2. Cafodd fy Swyddog Ymchwilio sylwadau a gwybodaeth berthnasol gan y Bwrdd Iechyd ac ystyriodd y rhain ar y cyd â'r dystiolaeth a roddodd Mrs X. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn, ond rwyf yn fodlon na chafodd unrhyw beth arwyddocaol ei esgeuluso.

3. Cafodd Mrs X a'r Bwrdd Iechyd gyfle i weld a rhoi sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

## Y digwyddiadau cefndir

4. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Fampridine fel triniaeth a ariennir gan y GIG yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2019 yn dilyn argymhelliad gan Grŵp Llywio Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG).[1] Yn gyffredinol, dylai Llywodraeth Cymru gynnig meddyginiaethau sydd newydd eu cymeradwyo o fewn 60 diwrnod i gael eu cymeradwyo.

5. Cymeradwywyd Fampridine i'w ddefnyddio gan y GIG i wella cerdded mewn cleifion sy'n oedolion â sglerosis ymledol (MS - cyflwr dirywiol sy'n effeithio ar y system nerfol ganolog). Mae symudedd a newidiadau i lefel symudedd person dros amser yn cael eu monitro a'u mesur gan ddefnyddio'r Raddfa Statws Anabledd Ehangedig ("EDSS"). Cymeradwywyd Fampridine ar gyfer cleifion sy'n ennill sgôr EDSS o rhwng 4 (yn gallu cerdded am 500 metr heb gymorth) a 7 (yn gallu cerdded dim mwy na 5 metr hyd yn oed gyda chymorth).

[1] Grŵp Llywio Meddyginiaethau Cymru Gyfan Rhif: 1919 - Rhagfyr 2019
[Final Appraisal Recommendation (nhs.wales)]

6. Cwynodd Mrs X i'r Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2023, am nad oedd yn gallu cael gafael ar y cyffur o hyd er iddo gael ei gymeradwyo fel triniaeth a ariennir gan y GIG yng Nghymru yn 2019.

7. Yn ei lythyr ymateb ffurfiol at Mrs X, dyddiedig 3 Mai 2023, cydnabu'r Bwrdd Iechyd nad oedd wedi gallu cynnig y cyffur. Dywedodd mai dim ond meddyg sydd â phrofiad o reoli MS all ragnodi fampridine. Roedd angen cynnal asesiad o'r gallu i gerdded cyn dechrau'r cyffur, ac yna asesiadau dilynol gan y tîm amlddisgyblaethol MS, therapi sbasmolytic (i leddfu cyfangiadau yn y cyhyrau) a ffisiotherapi. Amcangyfrifodd y gallai fod tua 500 o gleifion yn ei ardal a allai fod yn gymwys i dreialu'r driniaeth hon. Dywedodd nad oedd ganddo'r adnoddau ar hyn o bryd i gynnig y gwasanaeth hwn gan y byddai'n anniogel gwneud hynny heb fod â digon o staff ar gyfer monitro cleifion yn effeithiol. Cadarnhaodd fod achos busnes yn cael ei ddatblygu ac ar ôl ei gymeradwyo, byddai gan y Bwrdd Iechyd yr adnoddau i gefnogi'r broses o gyflwyno'r cyffur yn ddiogel i gleifion cymwys.

## Tystiolaeth Mrs X

8. Dywedodd Mrs X ei bod yn perthyn i'r categori claf ag MS sydd ag EDSS rhwng 4 a 7. Felly, gallai hi elwa o bosibl o'r cyffur ac roedd o fewn y categori o gleifion a fyddai'n gymwys i'w dderbyn. Roedd yn siomedig na chynigiodd y Bwrdd Iechyd y cyffur iddi, pan oedd yn ymwybodol ei fod wedi ei gymeradwyo a bod byrddau iechyd eraill yn ei gynnig.

## Tystiolaeth y Bwrdd Iechyd

9. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd fod y sefyllfa bresennol yn siomedig iawn i'w gleifion. Dywedodd ei fod yn awyddus i'r gwasanaeth gael ei sefydlu. Fodd bynnag, roedd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer y staff yr oedd eu hangen i fonitro sut oedd y cyffur yn cael ei ragnodi a'i ddefnyddio ar gyfer cleifion cymwys. Esboniodd ei fod wedi dechrau paratoi achos busnes ar gyfer cyflwyno fampridine ym mis Tachwedd 2022, a bod hwn wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Banel Cyn-fuddsoddi'r Bwrdd Iechyd ei hun ym mis Medi 2023 i'w gymeradwyo ar gyfer cyllid. Cadarnhaodd y byddai fersiwn ddiwygiedig yn cael ei hailgyflwyno i'r Panel ym mis Ionawr 2024 i'w chymeradwyo. Unwaith y bydd cyllid wedi'i gymeradwyo, gallai'r Bwrdd Iechyd ddechrau'r

broses o recriwtio staff addas i sicrhau bod triniaeth fampridine yn cael ei chyflwyno'n ddiogel. Roedd yn disgwyl i'r recriwtio gymryd rhwng 3 a 6 mis i'w gwblhau.

10. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd nad oedd yn gallu cyfeirio cleifion at fyrddau iechyd eraill gerllaw, gan fod gan y 2 fwyaf restrau aros eisoes ar gyfer mynediad i fampridine yn eu hardaloedd eu hunain. Ni chaiff fampridine ei ariannu gan y GIG yn Lloegr, felly dywedodd y Bwrdd Iechyd nad oedd posibilrwydd o geisio cytundeb i atgyfeirio cleifion yno am driniaeth.

## Dadansoddiad a Chasgliadau

11. Mae'n amlwg, o'r wybodaeth a welais, fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chynnig fampridine i gleifion cymwys yn unol â'i gymeradwyaeth ar gyfer defnydd y GIG yng Nghymru. Cafodd ei gymeradwyo i'w ddefnyddio ym mis Rhagfyr 2019. Gan ystyried y terfyn 60 diwrnod ar gyfer darparu meddyginiaeth sydd newydd ei chymeradwyo, dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi bod mewn sefyllfa i'w chynnig i gleifion erbyn mis Mawrth 2020.

12. Derbyniaf fod angen mwy o adnoddau staffio i asesu a monitro cleifion yn briodol pan gaiff fampridine ei roi. Nodaf hefyd, roedd y cyfnod gweithredu cychwynnol yn cyd-daro â phandemig COVID-19, pan fu straen sylweddol o ganlyniad ar adnoddau a staff gofal iechyd. Mae'n ddealladwy felly nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu gweithredu'r fframwaith asesu ar gyfer cyflwyno fampridine ar yr adeg hynny. Mae fy swyddfa yn ymwybodol bod Byrddau Iechyd eraill yn yr un modd wedi wynebu oedi wrth gyflwyno fampridine yn ystod y cyfnod hwn, ond maent wedi cyflwyno'r cyffur ers hynny. Mae'n destun pryder nad yw'r cyffur ar gael o hyd i gleifion yn ardal y Bwrdd Iechyd, ac nid yw'n gallu cadarnhau o hyd pryd y bydd hyn yn newid.

13. Derbyniaf fod y Bwrdd Iechyd wedi datgan mai mater o adnoddau yw hyn. Mater i'r Bwrdd Iechyd yw penderfynu sut mae'n dosbarthu ei adnoddau wrth gyflenwi ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o gyffur at ddefnydd y GIG yn creu disgwyliad dilys ymhlith y cyhoedd y bydd hwn ar gael i'r rhai sy'n gymwys i'w dderbyn o fewn cyfnod rhesymol o amser. Ar hyn o bryd, 4 blynedd o ddyddiad cymeradwyo'r defnydd a ariennir gan y GIG yng Nghymru, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod fampridine ar gael i unrhyw gleifion yn ei

ardal. Nid yw ychwaith yn gallu rhoi dyddiad ynghylch pryd y gallai wneud hynny. O ystyried y sefyllfa hon, gallaf yn llwyr ddeall y rhwystredigaeth y mae Mrs X yn teimlo bod triniaeth a ariennir gan y GIG a allai fod o fudd iddi, yn parhau i beidio bod ar gael iddi oherwydd nid yw'n cael ei gynnig gan y Bwrdd Iechyd yn yr ardal lle mae'n byw.

14. Mae llawer o achlysuron pan gaiff cleifion eu rhoi ar restr aros am driniaeth oherwydd pwysau adnoddau a'r galw am gyffur neu driniaeth benodol. Fodd bynnag, rwy'n fodlon bod y ddarpariaeth o fampridine gan y Bwrdd Iechyd yn fater hollol wahanol. Nid yw'n cynnig y cyffur i unrhyw un o'r cleifion cymwys yn ei ardal. Yn fy marn i, mae'n ymddangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd cyn lleied ag sy'n bosibl o gamau i roi'r gwasanaeth ar waith sydd wedi arwain at oedi annerbyniol wrth gynnig y cyffur. Rhagfyr 2019 oedd y dyddiad cymeradwyo ar gyfer fampridine ar gyfer darpariaeth a ariennir gan GIG Cymru. Dechreuodd y Bwrdd Iechyd lunio ei achos busnes ar gyfer y gwasanaeth i gynnig y driniaeth hon ym mis Tachwedd 2022, ac nid yw cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi'i gymeradwyo eto. Hyd yn oed os caiff ei gymeradwyo ar unwaith, mae'r Bwrdd Iechyd wedi amcangyfrif 3 i 6 mis arall i recriwtio staff. Mae hyn yn golygu mai'r cynharaf y gellid cynnig fampridine i gleifion yw canol 2024. Mae hyn yn cynrychioli dros 4 blynedd ers cymeradwyo fampridine fel triniaeth a ariennir gan y GIG yng Nghymru.

15. Rwy'n fodlon bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â rhoi trefniadau rhesymol ac amserol ar waith i ddechrau cynnig fampridine i gleifion yn ei ardal. Mae hyn yn gyfystyr â chamweinyddu sydd wedi achosi ac yn parhau i achosi anghyfiawnder i Mrs X sy'n parhau i fod yn aneglur ynghylch pryd fydd ganddi, neu a fydd ganddi, fynediad at y feddyginiaeth hon a allai wella ei bywyd. Rwyf felly yn **cadarnhau'r** gŵyn hon.

## Argymhellion

16. Rwy'n **argymell** y dylai'r Bwrdd Iechyd, o fewn **1 mis** o ddyddiad yr adroddiad hwn:

a) Ddarparu ymddiheuriad ysgrifenedig ffurfiol i Mrs X am y diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

b) Sefydlu cynllun gweithredu, gydag amserlenni, i gyflymu’r ddarpariaeth o fampridine gan y Bwrdd Iechyd.

c) Rhannu’r adroddiad hwn gyda’r Bwrdd neu’r pwyllgor perthnasol a ddylai oruchwylio cynllun gweithredu a’i hadolygu yn rheolaidd i sicrhau bod cynnydd amserol yn cael ei wneud a bod y camau gweithredu wedi’u cwblhau’n llawn.

Rwyf hefyd yn bwriadu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddwyn canfyddiadau’r adroddiad hwn i’w sylw.

17. Rwy’n falch o allu nodi bod y Bwrdd Iechyd, wrth wneud sylwadau ar fersiwn ddrafft o’r adroddiad hwn, wedi cytuno i weithredu’r argymhellion uchod.



1 Chwefror 2024

**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru
Ebost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales